Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin TY Mabon Tywyn

**Ty Mabon**
**Ffordd Neifion**
**Tywyn**
**Gwynedd**
**LL36 9ET**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Tywyn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin TY Mabon Tywyn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Denise Bevington |
| Person â gofal | Lisa Lewis |
| Nifer y lleoedd | 28 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 8.30 tan 5.30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Tachwedd 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 26/06/2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 14/02/2023 |
| Mae mwyafrif y plant sy'n mynychu'r cylch yn dod o gartrefi di-Gymraeg. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Ehangu cyfleoedd i'r plant ddefnyddio offer digidol i ddatblygu eu medrau cyfathrebu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn hapus, yn fodlon, ac yn ymdopi’n dda wrth gyrraedd a gadael eu rhieni/gofalwyr. Maent yn hyderus wrth wneud dewisiadau am sut maent yn treulio eu hamser ac maent yn gwybod bod eu dymuniadau’n cael eu parchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, mae rhai o’r plant yn ymuno i ganu ar y mat tra bod eraill yn dewis crwydro a chwarae gyda’r teganau sydd ar gael. Mae bron bob plentyn yn symud o gwmpas yr ystod eang o weithgareddau a'r ardaloedd chwarae yn hyderus. Mae hyn yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i drafod eu profiadau gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i’w ddweud. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â’r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol iawn â’r ymarferwyr, sy’n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Mae’r nifer bach sy’n ansicr yn derbyn cysur gan ymarferwyr ac yn aros yn agos atynt am gyfnod byr cyn teimlo’n gyfforddus i fynd ati i chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau. Maent yn rhyngweithio’n dda â’u cyfoedion ac yn cyfarch ei gilydd wrth iddynt gyrraedd. Mae'r rhan fwyaf yn hapus i rannu adnoddau â’u cyfoedion ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig yn dda, er enghraifft wrth aros eu tro i ddefnyddio’r gliniadur. Maent yn dangos balchder wrth dderbyn canmoliaeth a diolch am eu cydweithrediad.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu yn fawr iawn. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau’n dda wrth fynd i’r afael â thasgau ac maent yn mwynhau arbrofi ag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn chwarae â thoes ac ychwanegu blodau i greu gwead newydd. Mae’r rhan fwyaf yn chwilfrydig am y byd o’u cwmpas ac yn cael llawer o hwyl wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn defnyddio twba dŵr tu allan i neidio a sblasio yn gyffrous, gan ddangos i ymarferwyr faint o hwyl maent yn ei gael.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau’n annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau’n effeithiol. Mae bron bob plentyn yn awyddus i olchi eu dwylo, arllwys eu diod eu hunain a gwisgo ‘sgidiau glaw i fynd allan yn annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae’r ymarferwyr yn canolbwyntio’n barhaus ar gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithredu holl bolisïau a

gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae'r holl ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae bob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatrig, sy'n eu paratoi i roi triniaeth briodol, pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol, gan sicrhau bod rhiant yn arwyddo'r cofnodion hyn. Maent yn cwblhau ymarferion tân yn rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn ffurfio perthynas agos iawn â'r plant ac yn darparu arweiniad a chymorth gofalgar. Maent yn casglu amrediad defnyddiol o wybodaeth gan rieni a gofalwyr am arferion unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion a'u diddordebau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sydd newydd ddechrau ac yn eu cefnogi i ddatblygu hunanhyder. Mae'r ymarferwyr yn ymfalchïo yn y cynnydd a wna'r plant, ac maent yn angerddol ynglŷn â darparu'r gofal gorau er mwyn i'r plant ffynnu. Mae'r ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad, ac yn gyson wrth gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau'r plant, gan ymateb yn ofalus i'w hanghenion. Mae rhyngweithio'r ymarferwyr â'r plant yn gadarnhaol a charedig ac maent yn dangos urddas a pharch tuag at y plant yn gyson. Er enghraifft, maent yn ystyrlon a gwyliadwrus wrth ddelio ag anghenion personol y plant, ac yn frwdfrydig wrth ysbrydoli'r plant i ymateb yn egnïol i weithgareddau yn yr ardal allanol.

Hyrwydda'r ymarferwyr iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid manwl, ac mae'r arferion wedi eu hymgorffori'n bwrpasol yn arferion dyddiol y plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn treulio cymaint o amser â phosibl yn yr awyr iach. O ganlyniad, maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant ddatblygu agweddau anturus a medrus tuag at ddysgu. Yn ogystal, mae gweithdrefnau effeithlon ar waith i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

O dan arweiniad medrus yr arweinydd, mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n ofalus ac effeithiol ar gyfer y plant sydd yn eu gofal. Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant ac mae hyn yn sail gadarn iawn i'w gwaith. Maent yn cefnogi'r chwarae yn effeithiol a sensitif, gan addasu eu cefnogaeth yn unol ag anghenion y plant. Mae ymarferwyr yn holi a chwestiynu'r plant yn fedrus. Maent yn annog y dysgu, gan holi cwestiynau sy'n profi a herio dealltwriaeth y plant. Maent yn annog y plant i fynegi eu hunain, a hyd yn oed lle nad oes gan blentyn lawer o iaith lafar, maent yn sgwrsio gan fwydo geirfa, ac yn arddangos dealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad y plentyn.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau'r plant mewn cyd-destunau sbardunol a hwyliog fel eu bod yn dysgu wrth fwynhau chwarae. Maent yn achub ar bob cyfle i ddatblygu medrau'r plant trwy amrediad amrywiol o adnoddau a gweithgareddau hwyliog a difyr, er enghraifft wrth annog y plant i ymchwilio i ba

mor gyflym y bydd gwahanol geir yn dod i lawr y ramp, a pha mor bell y byddant yn rholio.

Mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o’r Gymraeg trwy gydol y sesiwn. Maent yn defnyddio geirfa gyfarwydd a newydd yn fedrus er mwyn cynyddu dealltwriaeth y plant. Mae ymarferwyr yn rhoi sylw i straeon a llyfrau ar draws pob agwedd o’r ddarpariaeth, sy’n golygu bod plant yn dangos brwdfrydedd, er enghraifft wrth gyfri sawl anifail sydd ar bob tudalen. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad da o adnoddau i ddatblygu medrau rhifedd y plant, er enghraifft trwy gyfri’r darnau arian a’u cyfateb i’r rhifau. Maent yn darparu cyfleoedd i’r plant fesur gan ddefnyddio eu traed fel uned. Fodd bynnag, nid yw’r offer digidol sydd ar gael bob amser yn hybu medrau cyfathrebu’r plant yn llawn.

Mae cyfleoedd cyfoethog yn y ddarpariaeth ac yn yr ardal tu allan i’r plant ddatblygu medrau modur mawr a mân. Mae offer fel pontydd a thwneli yn caniatáu i’r plant ddatblygu hyder a chryfder corfforol wrth gynnal eu hunain wrth groesi’r bont, ac wrth gropian drwy’r twnnel yn ofalus. Mae ymarferwyr yn paratoi cyfleoedd hyfryd i'r plant ddatblygu creadigrwydd trwy chwarae’r piano a’r drymiau, a thrwy greu printiau gan ddefnyddio offer naturiol. Mae ymarferwyr yn gwahodd syniadau’r plant yn barhaus gan eu crynhoi ar un o waliau’r lleoliad.

Mae ymarferwyr yn meithrin perthynas gref gydag amrediad o fudiadau lleol. Er enghraifft, maent yn ymweld â rheilffordd Tal y Llyn, ac yn cerdded i’r llyfrgell ac i’r siop lysiau leol er mwyn prynu nwyddau a dysgu am bwysigrwydd bwyta’n iach. Maent yn darparu cyfleoedd cyson i’r plant ddysgu am fyd natur trwy weithgareddau yn y goedwig ac ar lan y môr. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad eang o brofiadau sy’n hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru a thu hwnt. Maent yn dysgu am ddathliadau fel Diwali, a thraddodiadau gwahanol ddiwylliannau, sy’n cyfoethogi profiadau dysgu’r plant yn llwyddiannus.

Mae’r ymarferwyr yn asesu cynnydd y plant yn ofalus gan nodi datblygiadau arwyddocaol yn amserol. O ganlyniad, maent yn medru ymateb i’w hanghenion yn effeithiol. Maent yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr yn gyson trwy apiau defnyddiol a chyfarfodydd rheolaidd.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant yn barhaus, ac yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a’u rheoli’n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posibl a’r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes unrhyw beryglon amlwg yn bodoli.

Mae'r lleoliad yn ddiogel, yn groesawgar, yn gynnes ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n effeithiol. Mae’r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn annog chwilfrydedd y plant gyda digon o le iddynt symud o gwmpas yn rhwydd. Mae’r ddwy ystafell chwarae wedi eu trefnu’n  ardaloedd dysgu pwrpasol, gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau’r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ystod eang o adnoddau ac offer go iawn ar gael, fel llestri te, defnydd coginio a jariau. Mae hyn yn galluogi’r plant i ddatblygu eu dychymyg. Mae’r ardal chwarae tu allan yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfleoedd pwrpasol a chyffrous i blant.

Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn gwneud defnydd effeithiol o'r gegin fwd, y cwrs gwrthrychau, teiars mawr a’r tybiau dŵr.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod dewis helaeth o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael i’r plant yn yr ystafell chwarae. Mae’r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Gwneir defnydd effeithiol iawn o adnoddau a deunyddiau naturiol er mwyn galluogi’r plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, mae cyfleoedd da ar gael i'r plant arbrofi â pherlysiau a'u harogli a chwarae â deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu yn yr ardal chwarae rôl. Yn ogystal, ceir ystod dda o adnoddau er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol ac amrywiaeth. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd o’u cwmpas drwy ymweliadau wythnosol i’r goedwig neu’r traeth.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae’r person â gofal yn ymroddgar iawn ac mae ganddi weledigaeth glir a chadarn sydd wedi ei seilio ar sicrhau darpariaeth o’r safon uchaf ar gyfer y plant. Ynghyd â’r unigolyn cyfrifol a’r pwyllgor rheoli, mae’n gosod cyfeiriad pwrpasol ar gyfer datblygu’r ddarpariaeth. Mae lles y plant wrth wraidd popeth sy’n digwydd yn y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn dîm clos ac ymrwymedig ac yn ymateb yn hynod garedig ac effeithiol i anghenion pob plentyn. Maent yn gweithredu’n ddi-baid er lles y plant ac, o ganlyniad, mae hwythau’n hapus ac yn gwneud cynnydd da.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol wedi’u sefydlu’n gadarn. Maent wedi eu seilio ar amrediad da o dystiolaeth ac yn cynnwys gwerthusiad onest o’r ddarpariaeth a’i heffaith ar gynnydd, medrau a lles y plant. Mae’r blaenoriaethau a adnabyddir yn ystod y broses yn cael eu crynhoi yn gynllun datblygu cryno. Nodir camau gweithredu synhwyrol, gan ystyried yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cyrraedd y gwahanol flaenoriaethau. Mae hyn yn sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth ymarferol o’r hyn sydd ei angen arnynt i wireddu eu hamcanion. Enghraifft nodedig yw’r modd y mae arweinwyr wedi datblygu dulliau asesu cynnydd y plant.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau rhaglen gyson a gwerthfawr o hyfforddiant a phrofiadau dysgu proffesiynol ar gyfer yr ymarferwyr. Mae effaith yr hyfforddiant i’w gweld yn glir yng ngwaith ac agweddau’r ymarferwyr gyda’r plant. Er enghraifft, mae hyfforddiant oedd yn canolbwyntio ar ymddygiadau ailadroddus plant wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth i’r ymarferwyr ystyried sut i gefnogi’r dysgu.

Mae gan ymarferwyr gysylltiadau pwrpasol ag athrawon ymgynghorol blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol, er enghraifft trwy fynychu hyfforddiant buddiol, i ddatblygu’r ddarpariaeth yn sgil dyfodiad y Cwricwlwm i Gymru. Maent hefyd yn gweithio’n agos gyda swyddogion mudiadau cefnogi yn yr ardal, sy’n cynnig arweiniad eang a defnyddiol i’r person â gofal a’r ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn cydweithio’n agos â’r gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yn sirol gan gael hyfforddiant sy’n eu galluogi i gefnogi’r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn derbyn cefnogaeth a strategaethau arbenigol ar gyfer cynnal a chefnogi plant sydd ar y sbectrwm awtistiaeth.

Mae perthynas agos wedi’i datblygu gyda’r ysgol gynradd leol, er enghraifft y trefniant o gasglu plant o’r ysgol a’u cludo i’r lleoliad. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a’i derbyn rhwng y lleoliad a’r ysgol er mwyn hwyluso’r broses drosglwyddo.

Mae gan yr arweinwyr a'r ymarferwyr bartneriaeth agos ac effeithiol gyda rhieni. Maent yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr mewn modd amserol ac effeithiol trwy apiau pwrpasol. Mae hyn yn darparu gwybodaeth gyfredol i'r rhieni ynglŷn â phrofiadau'r plant. Mae arweinwyr hefyd yn darparu cyfleoedd i drafod wyneb yn wyneb ag ymarferwyr yn rheolaidd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/04/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 28 | The provider has not sought the necessary documentation to satisfy themselves of the suitability of staff to work at the setting. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 20 Ebrill 2023